
COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau'r Senedd

## Ebrill 2025 – Mawrth 2026



Mae’r Comisiynydd Safonau y Senedd yn berson annibynnol a benodir gan Senedd Cymru i ddiogelu safonau, cynnal enw da’r sefydliad a mynd i’r afael â chwynion.



**Douglas Bain CBE TD**
Comisiynydd Safonau’r Senedd

---

Mae copi electronig o’r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau’r Senedd: **www.comisiynyddsafonaucymru.org**.

Gellir cael copïau o’r adroddiad hwn hefyd mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopi caled gan:


**Comisiynydd Safonau’r Senedd**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau'r Senedd

Ebrill 2025 – Mawrth 2026

CYNNAL ENW DA

GWARCHOD SAFONAU

MYND I'R AFAEL Â PHRYDERON



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 6**

**2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd ........ 7**

**3. Cwynion ........ 8**

**4. Gwaith arall ........ 15**

**5. Gwariant ........ 16**

**6. Y flwyddyn sydd i ddod ........ 19**

**7. Diolchiadau ........ 20**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Dyma fy chweched adroddiad blynyddol, a’m holaf, fel Comisiynydd Safonau’r Senedd Daw fy nghyfnod yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2027 a bydd cyfrifoldeb dros yr adroddiad ar gyfer 2026-27 yn disgyn ar fy olynydd. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y cyflawnais swyddogaethau fy swydd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

**2.** Mae'n dilyn yr un patrwm â'm hadroddiadau blaenorol. Ar ôl nodi'r darpariaethau statudol perthnasol, mae'n rhoi gwybodaeth am nifer y cwynion a phynciau’r cwynion a ddaeth i law ac ym mha fodd y cawsant eu prosesu. Rhoddir gwybodaeth hefyd am waith arall a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwariant swyddfa'r Comisiynydd a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2026-27.

# 2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

**3.** Gan nad oedd Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw newidiadau i swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn adrodd.[1] Crëwyd swydd Comisiynydd Safonau'r Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('y Mesur').[2] Mae Adran 5 o'r Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd ar gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

**4.** Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- Derbyn unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion y Cod Ymddygiad[3] ('y Cod') neu ddarpariaeth berthnasol arall, ymchwilio i gwynion o'r fath a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') ar y rhai sy'n dderbyniadwy;[4]
- Cynghori Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yr Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd.

**5.** Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

[1] Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2009/4/contents; http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh
Cafodd teitl y swydd ei newid o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan ddaeth adran 7 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020i rym ar 6 Mai 2020.

[3] https://senedd.cymru/media/jpbdxzr0/code-of-conduct-cym.pdf

[4] Fel y'u diffinnir yn adran 6(3) o'r Mesur.

# 3. Cwynion

## Cyflwyniad

**6.** Treuliwyd rhan arwyddocaol o'm hamser yn ystod y flwyddyn yn ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Nodir rhagor o wybodaeth amdanynt yn y paragraffau a ganlyn.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2024-25

**7.** Roedd ystyriaeth o 12 o gwynion derbyniadwy ar y gweill ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol. Cyflwynwyd adroddiadau pedwar ymchwiliad, yn cwmpasu wyth o'r cwynion hyn, i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2025. Rhoddwyd y gorau i ystyried y pedair cwyn arall, a oedd yn ailadrodd yn sylweddol honiadau a drafodwyd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd.[5] [6] [7] [8]

## Cwynion newydd

**8.** Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 86 o gwynion newydd. Ymdriniwyd â'r holl gwynion hyn yn unol â'r **Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")**.

**9.** Dangosir ffynonellau, pynciau a rhesymau dros annerbyniadwyedd y cwynion hyn yn y Tablau isod.

[5] **Y pedwerydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[6] **Yr ail adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[7] **Yr unfed adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[8] **Y trydydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**

***Tabl 1: Cwynion a ddaeth i law, ffynhonnell a derbyniadwyedd***

| | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Daeth i law** | 44 | 71 | 190 | 136 | 86 |
| **% gan y cyhoedd** | 91 | 58 | 89 | 92 | 86 |
| **% gan Aelod yn erbyn Aelod** | 0 | 0 | 0.5 | 2 | 4 |
| **% gan Aelod yn erbyn ei hun** | 0 | 7 | 1.5 | 1 | 1 |
| **% gan Glerc y Senedd** | 9 | 35 | 9 | 5 | 9 |
| **% annerbyniadwy** | 80 | 49 | 84 | 82 | 83 |
| **% derbyniadwyedd heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn** | 5 | 0 | 1 | 3 | 2 |

***Tabl 2: Cwynion yn ôl pwnc***

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol** | 6 | 8 | 53 | 44 | 67 |
| **Camddefnyddio adnoddau** | 4 | 5 | 3 | 5 | 12 |
| **Safon gwasanaeth** | 16 | 5 | 17 | 15 | 9 |
| **Methu â chofrestru / datgan / diweddaru buddiant** | 7 | 27 | 24 | 12 | 12 |
| **Y tu allan i gylch gorchwyl (ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu ymddygiad Gweinidogol)** | 3 | 20 | 29 | 22 | 18 |
| **Ymddygiad arall9** | 8 | 6 | 64 | 38 | 14 |
| **CYFANSWM** | 44 | 71 | 190 | 136 | 86 |

[9] Derbynnir cwynion mewn llawer o wahanol feysydd ac mae'r adran hon wedi cynnwys cwynion yn amrywio o bresenoldeb rhai Aelodau mewn gwrthdystiad i'r ffordd y mae rhai Aelodau'n pleidleisio o bell yn ystod y Cyfarfod Llawn. Roedd pynciau eraill y cwynwyd amdanynt yn cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru fel sefydliad.

***Tabl 3: Rhesymau nad yw cwyn yn dderbyniadwy***

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Ddim yn ysgrifenedig (Is-baragraff 4.2(a) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2** | Ddim yn enwi'r achwynydd (Is-baragraff 4.2(b) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **3** | Ddim yn ymwneud ag ymddygiad Aelod a enwyd (Is-baragraff 4.2(c) y Weithdrefn) | 2 | 0 | 9 | 1 | 2 |
| **4** | Ddim yn datgan gweithred neu ddiffyg y cwynir amdano (Paragraff 4.2(d) y Weithdrefn) | 33 | 1 | 9 | 2 | 0 |
| **5** | Tystiolaeth ategol annigonol (Is-baragraff 4.2(e)(i) y Weithdrefn)10 | - | 3 | 40 | 22 | 14 |
| **6** | Ymddygiad, os profir, nad yw'n torri darpariaeth berthnasol (Is-baragraff 4.2(e)(ii) y Weithdrefn) | | | | | |

[10] Pan fydd Achwynwyr yn methu, i ddechrau, â darparu digon o dystiolaeth neu wybodaeth i gefnogi cwyn a allai fod yn dderbyniadwy, byddant yn cael o leiaf 14 diwrnod i'w darparu.

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor (Paragraff 3 y Cod)[11] | - | 16 | 17 | 12 | 17 |
| | Ymddygiad Gweinidogol (Paragraff 7(ii) y Cod)[12] | - | 7 | 12 | 10 | 2 |
| | Safon gwasanaeth (Paragraff 7(iii) y Cod)[13] | - | 4 | 17 | 27 | 9 |
| | Arall | - | 7 | 54 | 35 | 24 |
| **7** | Ddim o fewn y cyfnod a ganiateir (Is-baragraff 4.2(g) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 1 | 2 | 2 |

**10.** O’r 13 o gwynion derbyniadwy, roedd chwech yn ymwneud â methiannau bach gan Aelodau i hysbysu newid i'w buddiannau cofrestredig o fewn yr amser a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog. Ym mhump o’r cwynion hyn, gan fod yr Aelodau wedi derbyn y gwall a’i gywiro, argymhellais i'r Pwyllgor na ddylwn barhau â'm hymchwiliad. Derbyniwyd yr holl argymhellion hyn. Rhoddwyd y gorau i ystyried y chweched gŵyn gan fod y methiant eisoes wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor.

**11.** Cyfeiriodd y Prif Weithredwr ataf bedwar achos o Aelodau yn honni eu bod yn gwneud ffilmiau gwleidyddol plaid ar ystâd y Senedd. Mae ffilmio o'r fath wedi'i wahardd o dan y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r

[11] Mae paragraff 3 o’r Cod yn darparu mai’r Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau fydd, fel arfer, yn ymdrin ag ymddygiad yr Aelodau yn ystod Cyfarfod Llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau, drwy droi at Reolau Sefydlog y Senedd. Dim ond os caiff cwyn am ymddygiad o'r fath ei chyfeirio at y Comisiynydd gan y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor y caiff y Comisiynydd ymchwilio iddi.
[12] Mae adran 8 o'r Mesur a pharagraff 7(ii) o'r Cod yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Aelod wrth weithredu’n llwyr yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog. Cafodd yr achwynwyr a honnodd gamymddwyn gweinidogol eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.
[13] Mae paragraff 7(iii) o'r Cod yn darparu nad yw'n ymwneud â safon gwasanaeth a chanlyniadau a geir gan Aelod.

Senedd ac mae'n groes i Reol 8 o'r Cod. Cyfaddefodd y ddau Aelod dan sylw eu camymddwyn a dileu'r cynnwys. Derbyniodd y Pwyllgor fy argymhelliad y dylid rhoi'r gorau i ystyried y cwynion.

**12.** Roedd un gŵyn yn ymwneud â methiant honedig i ddatgan buddiant yn ystod y Cyfarfod Llawn. Yn ystod fy ymchwiliad daeth yn amlwg nad oedd methiant o'r fath wedi digwydd. Gorffennais fy ystyriaeth o'r gŵyn yn unol ag is-baragraff 5.1 o'r Weithdrefn.

**13.** Ymchwiliais i atgyfeiriad gan y Prif Weithredwr ynghylch y defnydd amhriodol honedig o un o'i staff cymorth gan Janet Finch-Saunders. Yn ystod fy ymchwiliad, daeth yn amlwg nid yn unig fod yr Aelod wedi cydsynio dro ar ôl tro, ac ar rai achlysuron wedi annog, y camymddwyn hwn, ond ei bod hefyd wedi methu â darparu hyfforddiant digonol i'w staff. Derbyniodd y Pwyllgor fy marn fod yr Aelod wedi torri Rheol 1 (Arweinyddiaeth), Rheol 8 (Defnydd amhriodol o adnoddau'r Senedd) a Rheol 24 (Dyletswydd i ddarparu hyfforddiant ac ati) o'r Cod. Cafodd yr Aelod ei geryddu am ei chamymddygiad.[14]

**14.** Roedd fy ymchwiliad i'r drydedd gŵyn dderbyniadwy ar ddeg yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2026-27

**15.** Ar ddiwedd y flwyddyn roedd derbyniadwyedd dwy gŵyn a ddaeth i law ar 31 Mawrth 2026 eto i'w benderfynu, ac roedd fy ymchwiliad i un gŵyn dderbyniadwy yn parhau.[15]

## Ystyriaeth

**16.** Rwyf yn fodlon bod ymddygiad cyffredinol yr Aelodau yn parhau i fod o safon uchel. Mae hynny'n cael ei gadarnhau gan y gostyngiad 37% yn nifer y cwynion a ddaeth i law, a chan y ffaith, ar wahân i'r methiannau bach a thechnegol i raddau helaeth, mai dim ond un Aelod, Janet Finch-Saunders, a ganfuwyd i fod wedi torri unrhyw ddarpariaeth berthnasol yn ystod y flwyddyn.

**17.** Y gostyngiad yn nifer y cwynion a ddaeth i law, o 136 yn 2024-25 i 86 yn y flwyddyn adrodd, oedd y gostyngiad mwyaf ond un ers creu'r Comisiynydd

[14] **Y pumed adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[15] Daeth yr ymchwiliad i ben o dan is-baragraff 5.1(a) a (g) o'r Weithdrefn. Canfuwyd bod un o'r cwynion yn annerbyniadwy yn unol ag is-baragraff 4.2(f) tra bod ystyriaeth o'r gŵyn arall wedi dod i ben o dan is-baragraff 5.1(g).

Safonau yn 2009.  Mae'n parhau â thuedd galonogol o ran gostyngiad yn nifer y cwynion a ddaw i law.

**18.** Er bod ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod y prif reswm dros gwynion, roedd yn braf nodi'r gostyngiad o fwy na 50 y cant yn y nifer ers 2024-25. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r materion y gwnaed cwynion eraill yn eu cylch nac yn ffynonellau'r cwynion na'r rhesymau pam nad oeddent yn dderbyniadwy.

# 4. Gwaith arall

**19.** Wrth ystyried cwynion, nodais eto sawl enghraifft lle y gellid gwneud gwelliannau i'r Cod a'r Weithdrefn. Roeddwn yn falch o nodi bod llawer o'r rhain wedi'u gweithredu yn y Cod Ymddygiad a ddaeth i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

**20.**Rhoddais dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ac i'r Pwyllgor Safonau ar y Bil hwnnw a nifer o faterion eraill. Cyfrannais at ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau ar y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

**21.** Yn ystod y flwyddyn, cefais ohebiaeth ar ystod eang o faterion y tu allan i'm cylch gwaith fel Comisiynydd. Ym mhob achos, eglurwyd i'r gohebwyr pam na allwn eu cynorthwyo, a chawsant eu cyfeirio at y sefydliad priodol i ymdrin â'u problem.

# 5. Gwariant

**22.** O dan adran 3 a pharagraff 5 o'r Atodlen i'r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion.

**23.** Mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 i'w weld yn Nhabl 4.

***Tabl 4 – Gwariant swyddfa'r Comisiynydd***

| | **2021-22 £** | **2022-23 £** | **2023-24 £** | **2024-25 £** | **2025-26 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd (Nodyn 1)** | 30,538 | 34,692 | 48,847 | 39,137 | 35,720 |
| **Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd** | 1,014 | 4,264 | 5,199 | 24 | 811 |
| **Costau eraill y Comisiynydd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro (Nodyn 1)** | 0 | 0 | 0 | 2,940 | 0 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau eraill y Comisiynydd Dros Dro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro** | 31,552 | 38,955 | 54,045 | 42,101 | 36,531 |

| | 2021-22 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2024-25 £ | 2025-26 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cyflogaeth (Nodyn 2)** | 70,874 | 71,115 | 74,448 | 75,848 | 64,626 |
| **Teithio a chynhaliaeth staff** | 0 | 0 | 0 | 520 | 39 |
| **Costau eraill staff** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau staff (Nodyn 3)** | 70,874 | 71,115 | 74,448 | 76,368 | 64,665 |
| **Gwariant arall yr aed iddo16** | 4,957 | 9,524 | 5,498 | 8,555 | 4,117 |
| **CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD** | 107,383 | 119,595 | 133,992 | 127,025 | 105,313 |

Nodyn 1 - Tâl y Comisiynydd + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr

Nodyn 2 - Cyflog staff + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr + cyfraniad pensiwn y cyflogwr

Nodyn 3 – Mae'r gostyngiad oherwydd dim ond tua 80% o gyfanswm yr amser a dreuliodd yr unigolyn dan sylw yn cefnogi'r Comisiynydd. Ni wnaed addasiad cyfwerth yn y blynyddoedd blaenorol.

**24.** Mae cost rhedeg swyddfa'r Comisiynydd yn dibynnu'n helaeth iawn ar nifer y cwynion sy'n dod i law a faint ohonynt sy'n dderbyniadwy ac felly'n gofyn ymchwiliad. Er bod 50 yn llai o gwynion wedi dod i law yn 2025-26 na'r flwyddyn flaenorol, cafodd pedwar ymchwiliad ffurfiol ynghylch cwynion a ddaeth i law yn ystod 2024-25 eu cario drosodd a'u cynnal yn ystod blwyddyn adrodd 2025-26, a chynhaliwyd un ymchwiliad ffurfiol newydd. Mae ymchwiliadau ffurfiol o'r

[16] Roedd hwn yn cynnwys taliadau am wasanaethau cyfreithiol, trawsgrifio, ac ymdrin â'r cyfryngau.

fath yn cymryd llawer mwy o amser ac adnoddau na chwynion nad ydynt yn dderbyniadwy.  Hyd yn oed heb y gostyngiad oherwydd y dull mwy cywir o gyfrifo costau cyflogaeth, roedd cyfanswm y gwariant 4% yn is na'r flwyddyn flaenorol, a'r isaf ers 2022-23.

# 6. Y flwyddyn sydd i ddod

**25.** Rwy'n disgwyl i 2026-27 fod yn flwyddyn brysur. Mae bron yn sicr y bydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau a'r ffaith nad yw cyfran uchel iawn ohonynt wedi bod yn Aelodau o'r blaen yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a ddaw i law.

**26.** Er bod y Cod Ymddygiad newydd yn mynd i'r afael â llawer o'r diffygion yn y Cod blaenorol, mae'n debygol y bydd rhai o'r mesurau newydd yn arwain at broblemau sy'n cymryd llawer o amser.

**27.** Byddaf yn gweithio gyda'r Pwyllgor ar ddiwygio'r Weithdrefn. Mae'r diwygiad hwnnw'n angenrheidiol i gywiro nifer o ddiffygion bach a nodwyd ac o ganlyniad i'r newidiadau i'r Cod.

**28.** Bydd gwaith yn cael ei wneud i addasu arferion presennol i ystyried y newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) 2026.

**29.** Os caf wahoddiad, byddaf yn cwrdd â'r Pwyllgor Safonau newydd i egluro fy rôl a'u briffio ar fy ngwaith. Byddaf yn gwneud yr un peth i'r Aelodau lleyg pan gânt eu penodi i'r Pwyllgor.

**30.** Byddaf yn adeiladu ar y sesiynau cynefino ar gyfer yr Aelodau ynghylch fy rôl a'r broses gwyno a ddarperir ym mis Mai 2026 drwy ddarparu sesiynau pellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.


**31.** Yn sgil ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod â swyddfa Comisiynydd Safonau'r Senedd o fewn cylch gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg, byddaf yn cysylltu â'r swyddfa honno ynghylch y safonau a fyddai'n briodol.

**32.** Byddaf yn parhau i gysylltu â'r rhai sy'n gwneud gwaith tebyg mewn awdurdodaethau eraill gyda'r bwriad o nodi a chyflwyno arfer gorau.

**33.** Byddaf yn cwrdd â'm olynydd i sicrhau proses ddidrafferth o drosglwyddo unrhyw ymchwiliadau parhaus ac unrhyw ddarn arall o waith.

# 7. Diolchiadau

**34.** Gwnaeth Jonathan Thomas, fy Rheolwr Ymchwiliadau a Chwynion, ddefnydd llawn o’i 16 mlynedd a mwy o brofiad o gefnogi pob Comisiynydd Safonau ers i’r swydd gael ei chreu yn 2009.  Rwy'n ddyledus iddo am bopeth y mae wedi'i wneud. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i Meriel Singleton, Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac i'r nifer o staff eraill yng Nghomisiwn y Senedd a'm helpodd i gyflawni fy nyletswyddau.



**Douglas Bain CBE TD**
Comisynydd Safonau’r Senedd
18 Mehefin 2026


09:36
09:36:34
09:36


09:53:14
09:52


09:53:14
09:52

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

